# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 12-07)

**Dyddiad y : 27 Tachwedd 2007**
**Amser y : 8.45am**
**Lleoliad y : Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cylch gwaith:

Cylch gwaith y Pwyllgor yw:-

1. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, rhaid i'r Pwyllgor ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw "intra vires";

(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;

(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;

(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;

(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;

(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;

(ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;

(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Cynulliad; neu

(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd).

2. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;

(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;

(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;

(iv) ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol; neu

(v) nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

3. Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 neu 15.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

4. Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 15.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

5. Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad;

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;

(iii) canlyniadau gorchmynion drafft o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 ar gyfer deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth yn y Cynulliad;

(iv) defnydd Gweinidogion Cymru ar bwerau cychwyn; neu

(v) unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

6. Ni chaiff y Pwyllgor ystyried:

(i) unrhyw orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft; na

(ii) unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae'n ofynnol ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.

### Aelodau:

Aelodau presennol y Pwyllgor yw: Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd)
Eleanor Burnham AC
Andrew RT Davies AC
Alun Davies AC
Paul Davies AC
Irene James AC
Sandy Mewies AC
Janet Ryder AC
Karen Sinclair AC

### Cynghorwyr Cyfreithiol:

Gwyn Griffiths
Joanest Jackson

### Y Tîm Clercod:

### Clerc y Pwyllgor:

Chris Reading

### Dirprwy Glerc y Pwyllgor :

Olga Lewis

### Swyddogion Cymorth Gweinyddol :

Hasera Khan
Runa Haque

### Sut i gysylltu â ni:

Os hoffech ddod i gyfarfod Pwyllgor y Cynulliad, mae angen archebu sedd ymlaen llaw, naill ai drwy ffonio: **Llinell Archebu'r Cynulliad: 029 2089 8477** Neu drwy anfon e-bost i archebu@cymru.gsi.gov.uk Gallwch gysylltu â'r pwyllgor drwy anfon e-bost i: Legislation.comm@wales.gsi.gov.uk **Neu gallwch siarad â Chris Reading, y Clerc ar 029 2089 8164**.

### CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2007. Yr oedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC, Alun Davies AC, Paul Davies AC, Sandy Mewies AC, Janet Ryder AC, Karen Sinclair AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor. Cafodd Janet Ryder ei dewis fel Cadeirydd dros dro.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na chafodd y Cynulliad ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

### SLC71 - Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Blociau Fflatiau Penodol) (Addasiadau i Ddeddf Tai 2004 a Darpariaethau Trosiannol ar gyfer HMOs adran 257) (Cymru) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 13 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 5 Rhagfyr 2007.

### SLC72 - Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Darpariaethau Ychwanegol) (Cymru) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 13 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 5 Rhagfyr 2007

.

### SLC73 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 13 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 4 Rhagfyr 2007.

### SLC74 - Rheoliadau Tai (Asesiad o Anghenion Llety) (Ystyr Sipsiwn a Theithwyr) (Cymru) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 14 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2007. Offerynnau y cafodd y Cynulliad ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2 Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

### SLC67 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 7 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 28 Tachwedd 2007. **Cam i'w gymryd:** O ran yr Offeryn Statudol hwn (yn ogystal â rhai eraill o'i flaen) nododd y Llywodraeth fod y pwyntiau adrodd a nodwyd wedi'u derbyn ac y byddai'r Rheoliadau'n cael eu diwygio "ar y cyfle cyntaf". Holodd yr Aelodau ynghylch ystyr termau fel "ar y cyfle cyntaf" a "maes o law": pa fath o amserlen sy'n gysylltiedig â hwy. Gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod i'r Clerc am unrhyw agweddau eraill yr oedd angen eu hesbonio cyn diwedd yr wythnos fel bod y Cadeirydd yn gallu ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol.

### SLC76 - The Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) (Amendment) Regulations 2007 (Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig)

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 16 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 17 Tachwedd 2007. Ceir Adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiad 1 a 2 i'r Adroddiad hwn. Janet Ryder AC
Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
27 Tachwedd 2007

# Atodiad 1

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-12-07)

### SLC67

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**O dan Reol Sefydlog 15.2 cafodd y Cynulliad ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**

### Teitl: Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu 1999 (O.S. 1999/1540) (fel y'i diwygiwyd), sy'n rhychwantu Prydain Fawr gyfan, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, ac maent yn ailddeddfu'r Rheoliadau hynny gyda newidiadau o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu, i'r graddau a bennir ym mharagraff 3 y Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau, yr offerynnau Cymunedol a bennir yn y paragraff hwnnw. **Gweithdrefn: Negyddol** 1. Ym mharagraff (b) y diffiniad o "ddŵr yfed" yn rheoliad 2(1), mae'r testun Cymraeg yn darparu ar gyfer labelu yn Saesneg neu yn Gymraeg, tra bod y testun Saesneg yn darparu ar gyfer labelu yn Saesneg yn unig. Mae anghysondebau tebyg yn digwydd yn rheoliadau 8, 9, 10, 11, 12, 14. Gan fod rheoliad 20 yn creu tramgwyddau mewn perthynas â'r rheoliadau hyn, bydd y defnydd o'r termau Cymraeg penodol heb y rhai Saesneg cyfatebol yn dramgwydd yn ôl y testun Saesneg, ond nid yn ôl y testun Cymraeg. Mae'n hanfodol bod yr anghysondeb yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] 2. Mae testun Saesneg rheoliad 5(2) yn gorffen gyda "until ... would comply with those paragraphs", tra bod y testun Cymraeg yn defnyddio "hyd nes ... y gallai ... gydymffurfio â'r paragraffau hynny" ["until ...could comply with those paragraphs]". Dylai'r Saesneg ddweud "could" neu dylai'r Gymraeg ddweud "y byddai yn cydymffurfio". [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] Mae'r Llywodraeth wedi gwneud sylw ei bod yn derbyn y pwyntiau a nodwyd i fod yn destun adroddiad, ac y bydd diwygiadau yn cael eu gwneud i ddiwygio'r Rheoliadau ar y cyfle cyntaf. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud sylw ei bod yn derbyn y pwyntiau a nodwyd i fod yn destun adroddiad, ac y bydd diwygiadau yn cael eu gwneud i ddiwygio'r Rheoliadau ar y cyfle cyntaf. Janet Ryder AC
Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
27 Tachwedd 2007

# Atodiad 2

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-12-07)

**SLC76**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**O dan Reol Sefydlog 15.2 cafodd y Cynulliad ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**

### Teitl: Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 (SI 2006/1536 (W.153)) (y "prif Reoliadau"), i gymryd i ystyriaeth Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif. 1266/2007 sy'n gosod rheolau gweithredu ar gyfer Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/75/EC ynghylch rheoli, monitro, gwyliadwriaeth a chyfyngiadau ar symud anifeiliaid penodol o rywogaethau a allai gael haint y tafod glas. **Gweithdrefn: Negyddol** 1. Gwnaed y Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig. Oherwydd y brys i wneud y Rheoliadau hyn er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau Cymunedol, penderfynodd y Gweinidog nad oedd yn rhesymol ymarferol iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog. Gwnaed y prif reoliadau yn Saesneg yn unig hefyd. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] Janet Ryder AC
Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
27 Tachwedd 2007